



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL Ad-Drefnu'r Cabinet

DYDDIAD 14 Mawrth 2013

GAN Y Gwir Anrh. Carwyn Jones AC, Prif Weinidog i Gymru

Bydd Aelodau'r Cynulliad am wybod fy mod heddiw wedi gwneud newidiadau i fy nhîm Gweinidogion. Rwyf wedi ad-drefnu rhai portffolios er mwyn tanlinellu pwyslais y Llywodraeth ar gyflawni ac er mwyn ymateb i flaenoriaethau cyfnewidiol fel y pwysau cynyddol ar incwm teuluoedd. Rwy'n disgwyl i restr fanwl o gyfrifoldebau diwygiedig y Gweinidogion gael ei chyhoeddi dros yr wythnos nesaf.

Bydd **Mark Drakeford** yn ymuno â'r Cabinet fel **Gweinidog Iechyd** gyda **Gwenda Thomas** yn parhau fel **Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol**. Bydd y cyfrifoldeb am Blant a Theuluoedd yn symud i bortffolio newydd o dan **Huw Lewis** fel **Gweinidog Cymunedau a Trechu Tlodi** – bydd y portffolio yn cynnwys y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi, Cymunedau'n Gyntaf, Cydraddoldeb, Plant, Diwygio Lles a'r Sector Wirfoddol yn ogystal â'r cyfrifoldeb am Ddatblygu Cynaliadwy ar draws y sefydliad.

Mae **Edwina Hart** yn cadw ei briff ond yn ychwanegu trafndiaeth ato, fel **Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth**. Bydd **Leighton Andrews** yn parhau fel y **Gweinidog Addysg**. **Jeff Cuthbert** fydd y **Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg**.

Alun Davies fydd y **Gweinidog Adnoddau Naturiol a Bwyd** gan gyfuno ei gyfrifoldebau blaenorol am Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd â'r rheini oedd yn perthyn i bortffolio'r Amgylchedd, gan gynnwys y newid yn yr hinsawdd, atal llifogydd a sefydlu Cyfoeth Naturiol Cymru. **John Griffiths** fydd y **Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon** newydd a fydd hefyd yn gyfrifol am Barciau Cenedlaethol, Cerdded a Beicio (gan gynnwys y Bil Teithio Llesol). Bydd Cynllunio yn rhan o'r portffolio **Tai ac Adfywio** o dan **Carl Sargeant**.

Lesley Griffiths yw'r **Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth** newydd. Bydd **Jane Hutt** yn cadw ei chyfrifoldebau fel y **Gweinidog Cyllid** ond bydd hefyd yn ysgwyddo'r cyfrifoldebau am Raglenni Ewropeaidd (WEFO) a datblygu swyddogaeth Trysorlys Cymru.